



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

ADRODDIAD

# Adroddiad blynyddol cysylltiadau rhyngwladol 2023 i 2024

Adroddiad blynyddol yn nodi gweithgarwch yng Nghymru a thramor i gyflawni'r dyheadau yn y Strategaeth Ryngwladol

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 Mehefin 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 19 Mehefin 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

## 1. Trosolwg

Cyflwyniad

Strategaeth ryngwladol

Blaenoriaethu ymgysylltu rhyngwladol

Codi ein proffil drwy adegau allweddol

Lleoliadau swyddfeydd

---

## 2. Rhwydwaith byd-eang

Cyflwyniad

Ewrop

Gogledd America

Dwyrain Canol Gogledd Affrica ac Asia (MENA)

---

## 3. Astudiaethau achos

Cymru yn Ffrainc 2023-2024

Cymru ac Affrica

Perthynas Cymru â Birmingham, Alabama

Lled-ddargludyddion Cyfansawdd – Cynnig Cymru

Cyflwyno'r Byd i Gymru

---

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# 1. Trosolwg

## Cyflwyniad

Mae Cymru yn wlad Ewropeaidd flaengar a rhyng-gysylltiedig, ac mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith gartref a thramor i gyflawni ein blaenoriaethau, arddangos ein gwerthoedd a hyrwyddo ein cenedl yn y byd hwn sydd â chysylltiadau byd-eang.

Drwy adeiladu a datblygu cysylltiadau â'r byd ehangach, gallwn arddangos y gorau yng Nghymru drwy ddenu swyddi a buddsoddiad gan ddangos ar yr un pryd ein hymrwymiad i gyfrifoldeb byd-eang. Mae hyn yn golygu rhannu dulliau dysgu a gwerthoedd blaengar o wlad fach a hefyd ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy rhyngwladol drwy waith, gan gynnwys ein rhaglen Cymru yn Affrica.

Mae aflonyddwch byd-eang wedi parhau i effeithio ar eleni o ran heriau gan gynnwys gwrthdaro, newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng costau byw. Nid yw Cymru'n ddiogel rhag y materion hyn ac, fel cenedl sy'n edrych tuag allan, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae drwy ein gweithgarwch rhyngwladol.

## Strategaeth ryngwladol

Mae ein gweithgarwch yn canolbwyntio ar dri nod y **Strategaeth Ryngwladol**; codi proffil Cymru, datblygu ein heconomi, a dangos ein hymrwymiad i gyfrifoldeb byd-eang.

Rydym yn gweithio i godi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cymru wedi cael ei gweld fwyfwy fel arweinydd agweddau mewn materion fel ein huchelgais i fod y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTTC+ yn Ewrop a dileu hiliaeth. Mae ein dulliau polisi arloesol mewn sawl maes – o'r economi gylchol i incwm sylfaenol – yn denu diddordeb rhyngwladol ac yn ysgogi cysylltiadau. Rydym yn gwneud cyfraniadau pwysig at flaenoriaethau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

rhyngwladol fel ieithoedd brodorol, drwy Ddegawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig, a thrwy ein partneriaethau â rhanbarthau eraill ledled y byd.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ac ehangu ein perthynas â rhanbarthau drwy lofnodi cytundebau newydd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Silesia, Fflandrys, Birmingham (Alabama) a Baden-Württemberg, sy'n cwmpasu meysydd lle gallwn rannu dulliau dysgu a chydweithio ar draws llawer o bolisiâu o feysydd ynni a digidol i ddiwylliant ac iaith.

Mae ein Strategaeth yn gosod cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu'r economi mewn hinsawdd ariannol heriol drwy ddenu mewnfuddsoddiad a chefnogi allforwyr Cymru i werthu eu nwyddau a'u gwasanaethau dramor. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, rydym yn mynd ati i hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol fel y brif gyrchfan ar gyfer buddsoddi drwy dynnu sylw at feysydd o'r economi lle mae gan Gymru alluoedd dosbarth rhyngwladol (gan gynnwys meysydd seiber, lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, gwyddorau bywyd ac ynni adnewyddadwy), gan ddangos y rhain fel cyfleoedd i ddarparu fuddsoddwyr. Ar ben hynny, rydym yn cynnal cysylltiadau cryf â buddsoddwyr presennol, gan ddarparu cymorth i sicrhau eu presenoldeb a'u twf parhaus yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom ddathlu 50 mlynedd o fuddsoddiad Japaneaidd yng Nghymru drwy ymuno ag un o'n cwmnïau byd-eang, Sony, mewn digwyddiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr i nodi'r garreg filltir nodedig hon sydd wedi cael ei datblygu gan dimau Llywodraeth Cymru yng Nghymru a Japan ers degawdau. Gan droi at allforion, mae ein Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru wedi helpu cwmnïau yng Nghymru i archwilio marchnadoedd newydd dramor, canfod cwsmeriaid newydd a datblygu eu hallforion. Y llynedd, cafwyd teithiau masnach i amrywiaeth o farchnadoedd gan gynnwys UDA, y Dwyrain Canol ac Awstralia. Roeddem hefyd wedi cynnal taith fasnach i'r Iseldiroedd a oedd wedi'i hanelu'n benodol at gwmnïau sy'n newydd i allforio i ddangos y cymorth ymarferol y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu o ran cael mynediad at farchnad a chanfod cwsmeriaid. Cadwodd UDA, yr Almaen, Iwerddon, Ffrainc a'r Iseldiroedd eu safleoedd fel pum gyrchfan allforio mwyaf Cymru.

Mae'r ymrwymiad i gyfrifoldeb byd-eang yn parhau'n flaenllaw yn ein

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gweithgarwch rhyngwladol. Rydym wedi bod yn rhannu ein dull gweithredu arloesol ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol â llawer o rannau o'r byd, yn ogystal â'n gweithgarwch blaengar i gefnogi'r rheini sydd mewn angen, fel y rheini sy'n ffoi rhag gwrthdaro, neu rannu ein gwaith ar arloesi ym maes ynni adnewyddadwy fel rhan o ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Yn ymarferol, mae hyn wedi golygu ein bod yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n rhannu gwerthoedd a dulliau dysgu Cymru. Y llynedd, fe wnaethom rannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2023 sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gyfleu gwerthoedd Cymru ledled y byd. Roedd hyn yn canolbwyntio ar wrth-hiliaeth ac roedd ar gael mewn dros 50 o ieithoedd. Fel rhan o hyn, roeddem hefyd yn gallu cefnogi ymweliadau dwyochrog rhwng Cymru a Birmingham, Alabama, gan ddod â phobl ifanc at ei gilydd i ddysgu am weithredoedd ein gilydd yn erbyn anghydraddoldeb. Buom hefyd yn gweithio gydag Academi Heddwch i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol – fel yr un sy'n canolbwyntio ar Heddwch ac Iechyd gyda Chanolfan Taiji Norwy – gan adlewyrchu ein nod o hyrwyddo heddwch drwy bartneriaethau. Yn olaf, rydym wedi ymateb i ddiddordeb byd-eang cynyddol yn ein dull gweithredu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys croesawu dirprwyaeth o Aelodau Cynulliad Deddfwriaethol Maharashtra i Gymru ar gyfer amrywiaeth o drafodaethau ynghylch sut mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith a sut y gellid ei chopio mewn mannau eraill.

Mae ein rhwydwaith tramor, mewn cydweithrediad â chydweithwyr yng Nghymru, yn hanfodol i'n nodau gartref a thramor. Drwy adeiladu rhwydweithiau a sefydlu cysylltiadau parhaus, rydym wedi codi ymwybyddiaeth a sicrhau dylanwad. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'n holl swyddfeydd allu gweithredu heb gyfyngiadau Covid-19, sydd wedi caniatáu i ddigwyddiadau gael eu cynnal ar draws pob cwr o'r byd lle mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, yr FCDO, llysgenadaethau ac uwch gomisiynau'n benodol, i sicrhau bod Cymru'n cael ei deall a'i hadlewyrchu yn ei gweithgarwch. Mae'r dull hwn yn parchu'r ffaith nad yw materion tramor wedi'u datganoli ond bod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig yn ein cysylltiadau rhyngwladol ag eraill – rhywbeth sydd wedi digwydd ers

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

degawdau.

Bydd gweithgarwch y flwyddyn nesaf yn ceisio adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn hon, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru yn India 2024 a Chymru yn Japan 2025, yn ogystal â chydabod y cyd-destun ariannol heriol a'r ansicrwydd byd-eang parhaus.

## Blaenoriaethu ymgysylltu rhyngwladol

Mae ein proffil yn codi. Fe wnaeth y pandemig dynnu sylw at ddatganoli, yn ogystal â rhai o'n dulliau arloesol. Mae llwyddiannau diwylliannol a chwaraeon wedi cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth fyd-eang o Gymru – o filiynau o bobl yn gwyllo rhaglen deledu a gwybod ble mae Wrecsam i'n hymddangosiad mewn nifer o dwrnameintiau chwaraeon rhyngwladol mawr.

Canlyniad y sylw hwn fu galw digynsail am ymgysylltu rhyngwladol gartref a thramor.

Cynhaliwyd dros 100 o ymweliadau diplomyddol a rhyngwladol yng Nghymru – cynnydd yn nifer yr ymweliadau roeddem yn arfer eu cyrraedd ar gyfartaledd cyn y pandemig. Mae pob ymwelydd, a phob cynrychiolydd, wedi bod yn awyddus i ddysgu mwy am ein gwlad, ein dulliau gweithredu a'n buddsoddiad a'n cyfleoedd busnes.

Mae Gweinidogion wedi croesawu arweinwyr o'n perthnasoedd rhanbarthol â blaenoriaeth, gan gynnwys Gweinidog-Lywydd Fflandrys a Marsial Silesia. Mae Gweinidogion hefyd wedi croesawu cynrychiolwyr diplomyddol o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Llysgenhadon Ffrainc, Sbaen, yr Almaen, yr Eidal, Japan ac UDA ac Uwch Gomisiynwyr Awstralia a Seland Newydd ymysg eraill. Mae ymgysylltu wyneb yn wyneb â phartneriaid rhyngwladol gartref neu dramor yn helpu i feithrin cysylltiadau gweithio agosach ac yn cyfleu bod 'y berthynas hon yn bwysig'.

Sicrhawyd llawer o gyfleoedd rhyngwladol arwyddocaol eraill yn ystod y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

flwyddyn. Rydym wedi denu nifer o ddigwyddiadau uchel eu proffil sydd wedi dangos Cymru fel arweinydd agweddau byd-eang a gwlad allblyg. Roedd Uwchgynhadledd Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn Abertawe, a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Llywodraeth Cymru, gyda'r Arlywydd Bill Clinton a'r Ysgrifennydd Hillary Clinton yn gyfle pwysig i siarad am ddylanwad byd-eang Cymru a thynnu sylw at y rhan hon o Gymru. Gwnaethom groesawu i Gaerdydd arweinwyr o bob rhan o Ewrop sy'n aelodau o Gomisiwn Arc yr Iwerydd - rhan o Gyngor Rhanbarthau Morol Ymylol yr UE (CPMR), gan ddangos ein hymrwymiad i gysylltiadau parhaus ag Ewrop.

Cynhaliwyd ymweliadau gweinidogol rhyngwladol lle'r oedd cyfleoedd i ychwanegu gwerth a blaenoriaethu ymgysylltu. Mae creu ein Cytundebau Partneriaeth Strategol gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Urdd wedi ychwanegu haen arall at ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'n heffaith yn ystod digwyddiadau tramor. Yn ystod y flwyddyn, maent wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau allweddol sy'n ymestyn ein cyrhaeddiad i gynulleidfaoedd newydd ac yn helpu i hyrwyddo ein negeseuon allweddol.

Unwaith eto, mae chwaraeon wedi rhoi cyfle i gyflawni ymgysylltu lefel uchel ac effaith uchel. Teithiodd y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth i Baris a Bordeaux. Ymwelodd â'r Ganolfan Ddyfrol newydd ar gyfer Gemau Olympaidd Paris, gan gwrdd â'r Dirprwy Faer ar gyfer Chwaraeon, Gemau Olympaidd, Gemau Paralympaidd a Digwyddiadau Mawr i drafod y cyfleoedd a'r gwaddol y bydd Cwpan Rygbi'r Byd a Gemau Olympaidd Paris 2024 yn eu darparu ar gyfer yr ardal. Siaradodd yn nigwyddiad lansio Tackling HIV ochr yn ochr â Gareth Thomas, cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru a'r Llewod, gan fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at Gynllun Gweithredu HIV Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ymweld â Musée d'Orsay i sicrhau cyfnewidfa gelf rhwng Cymru a Ffrainc.

Ymwelodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol â Lyon i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau i hyrwyddo diwylliant Cymru ac arddangos bwyd a diod Cymreig cyn gêm Cymru yn erbyn Awstralia.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ymwelodd y Gweinidog â Phentref Rygbi Lyon ac aeth i arddangosfa Celfyddydau Rhyngwladol Cymru o ystod amrywiol o ddoniau diwylliannol Cymru, gyda pherfformiadau gan Qwerin, côr ieuenctid yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin, Côr Hafodwenog, a Jessica Robinson, y soprano o Gymru a gyrhaeddodd rownd derfynol BBC Canwr y Byd Caerdydd. Cyfarfu'r Gweinidog â Phrif Swyddog Gweithredol Boccard, a agorodd ei waith cyntaf yn y DU ym Mrychdyn yn ddiweddar.

Roedd hwn yn gyfle i gadarnhau'r croeso y mae Cymru wedi'i roi i Boccard ac i ailadrodd y gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru ei rhoi i gwmnïau sy'n chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi yng Nghymru. Cynhaliodd hefyd arddangosfa bwyd a diod mewn partneriaeth â Hybu Cig Cymru, Arloesi Bwyd Cymru a chwmnïau bwyd a diod Cymru.

Yn ddiweddar, cafodd Ffrainc ei henwi'n un o brif gyrchfannau allforio Cymru ar gyfer bwyd a diod, felly roedd yn gyfle i ddod â'r doniau bwyd, coginio a diwylliannol gorau o Gymru at ei gilydd yng nghartref gastronomie Ffrainc - y Cité Internationale de la Gastronomie yn Lyon.

Teithiodd y Prif Weinidog i Baris a Nantes, a oedd yn cynnwys derbyniad yn Llysgenhadaeth Prydain ac ymweliad ag Ysgol Louise Michel Elementary gyda'r Urdd wrth iddi arddangos ei 'Chwarae yn Gymraeg'; rhaglen sy'n cyflwyno iaith a diwylliant i blant drwy chwarae a gweithgareddau.

Roedd y tair rhaglen weinidogol, o'u dwyn ynghyd, yn rhoi llwyfan anhygoel i Gymru i dynnu sylw at fwyd, diwylliant ac iaith Cymru yn ogystal ag atgyfnerthu cysylltiadau pwysig â'n partneriaid economaidd a gwleidyddol.

Ymwelodd y Prif Weinidog â Gwlad y Basg a Silesia. Diben ei ymweliad â Silesia oedd llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a oedd yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu ein perthnasoedd drwy weithgareddau economaidd, academaidd a diwylliannol.

Llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd gyda gwladwriaeth Baden-Württemberg yn yr Almaen, gyda Gweinidog yr Economi yn teithio i'r Almaen i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Enwch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).



lofnodi'r cytundeb ym mis Tachwedd. Yn 2024 bydd rhagor o waith yn cael ei wneud gan dîm Llywodraeth Cymru yn yr Almaen i ddatblygu'r berthynas hon ymhellach gan ddefnyddio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel sail. Teithiodd y Gweinidog i UDA hefyd, gan ymweld ag Alabama a Georgia mewn rhaglen a oedd yn canolbwyntio ar hawliau sifil ac undod.

## Codi ein proffil drwy adegau allweddol

Unwaith eto, roedd **Dydd Gŵyl Dewi** yn ganolbwynt i waith Llywodraeth Cymru i godi proffil Cymru ar y llwyfan byd-eang. Cynhaliwyd digwyddiadau ar draws y rhwydwaith tramor, yn Llundain ac yn Llysgenadaethau Prydain, gan ddefnyddio hyn fel cyfle i dynnu sylw'r byd at gryfderau Cymru o ran y neges 'gwneud y pethau bychain' a sut gall y pethau bach hyn ddod at ei gilydd i gael effaith fyd-eang.

Teithiodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i Iwerddon i gynnal derbyniad blynyddol Dydd Gŵyl Dewi, ochr yn ochr â rhaglen ehangach o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda chwmni ymchwil clinigol o'r radd flaenaf sy'n buddsoddi yn Abertawe, a menywod sy'n arweinwyr ym maes masnach, y llywodraeth, cyrff diwylliannol a'r byd academiaidd.

Dathlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Ddydd Gŵyl Dewi ym Mumbai, ar yr un pryd â lansio blwyddyn "Cymru yn India 2024".

Teithiodd y Prif Weinidog unwaith eto i Frwsel ar gyfer rhaglen o weithgareddau, gan gynnwys siarad mewn digwyddiad ar Ddyfodol Cymru fel Cenedl Ewropeaidd, cwrdd â Gweinidog Lywydd Fflandrys i drafod cynnydd ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, cyfarfod â Wind Europe i drafod y cyfleoedd yng Nghymru ar gyfer y sector ynni gwynt a chynnal y derbyniad Dydd Gŵyl Dewi blynyddol ym Mhreswylfa Llysgennad y DU, gan ddod â gwesteion pwysig o wledydd, rhanbarthau a sefydliadau'r UE at ei gilydd.

Roedd proffil Dydd Gŵyl Dewi ar draws Gogledd America yn dal i dyfu, gyda chymorth y sylw sy'n cael ei roi i Wreccsam ar hyn o bryd. Cynhaliwyd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

derbyniadau Dydd Gŵyl Dewi yn Atlanta, Chicago, Efrog Newydd, Hartford, Salt Lake City, Washington DC a Montréal gyda gwesteion ar wasgar, aelodau Cabinet Unol Daleithiau America, busnesau a chyn-fyfyrywyr. Cynhaliwyd tri digwyddiad yn Washington DC.

Y cyntaf oedd digwyddiad ar y cyd gyda'r Smithsonian yn dangos y ffilm Gymreig, Y Sŵn, fel rhan o "Gŵyl Ffilm Mamiaith" a hyrwyddo uchelgeisiau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru; derbyniad gyda'r Dirprwy Lysgennad gyda bwyd a diod o Gymru a pherfformiad gan bedwar o gantorion Cymraeg o'r Urdd; a derbyniad ar Capitol Hill gyda Chlymblaid Cyfeillion Cymru mewn cydweithrediad â Phenderyn.

Cynhaliodd swyddfa Llywodraeth Cymru yn Los Angeles gyfres o ddigwyddiadau yn Salt Lake City, yn nodi'r berthynas hanesyddol rhwng Cymru ac Utah ac yn cynnwys digwyddiad busnes ar y cyd â llywodraeth y wladwriaeth a rhanddeiliaid Utah. Gwnaethom barhau i drafod gyda llywodraeth y dalaith y cynlluniau i ddod â cherflun o Martha Hughes Cannon (y Seneddwr Gwladwriaeth benywaidd cyntaf yn UDA, ac yn wreiddiol o Landudno) i'r Neuadd Gerfluniau Genedlaethol yn adeilad Capitol Unol Daleithiau America yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yng Nghanada, cynhaliwyd derbyniad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ym Montréal gyda phresenoldeb cysylltiadau ar wasgar, y llywodraeth, busnesau a rhai diplomyddol. Yn ogystal â dathlu diwylliant a thraddodiadau Gymreig, roedd yn gyfle i drafod cyfleoedd i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol yn y dyfodol.

Yn Dubai a Doha, trefnodd y tîm dderbyniad Dydd Gŵyl Dewi yn Llysgenadaethau Prydain lle cafodd bwyd a diod Cymru eu hyrwyddo'n helaeth. Yn dilyn hynny, mae Hybu Cig Cymru wedi datblygu rhai posibilïadau addawol yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig a'r Alban gyda dosbarthwyr ac archfarchnadoedd posibl ar gyfer allforio cig oen Cymru.

Roedd y digwyddiad yn Dubai hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg, gyda chôr ysgol rhyngwladol yn canu Hen Wlad Fy Nhadau a thair cân yn Gymraeg gan y cyfansoddwr Robat Arwyn. Cafodd y brif araith ei chyfieithu i'r Gymraeg hefyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Roedd y ddau ddigwyddiad yn cynnwys aelodau allweddol o'r Cymry ar wasgar, cyn-fyfyrwyr a'r gymuned fusnes leol.

Yn Tsieina, cynhaliwyd derbyniadau Dydd Gŵyl Dewi yn Shanghai, Beijing, a Wuhan, gyda phresenoldeb Llysgennad EF yn y digwyddiadau olaf yn cefnogi'r effaith.

Yn Japan, cynhaliodd y tîm gyfres o ddigwyddiadau ledled y wlad gan gynnwys derbyniad yn Oita i ddathlu 2il ben-blwydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru ac Oita a dangoswyd nifer o brosiectau cyfnewid ar y cyd yn y celfyddydau, diwylliant, addysg, twristiaeth a busnes. Cynhaliwyd derbyniad ym Mhreswylfa'r Llysgennad yn Tokyo ar gyfer cysylltiadau busnes, Cymry ar wasgar a chyn-fyfyrwyr o bob rhan o Japan, a thynnodd sylw at ddiddordeb cynyddol yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Fe wnaethom hefyd fanteisio ar y cyfle i gefnogi diwrnodau cenedlaethol a rhyngwladol eraill drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Diwali a Dydd San Padrig yng Nghaerdydd, gan adeiladu ar ein perthnasoedd blaenoriaeth allweddol yma yng Nghymru.

## Lleoliadau swyddfeydd

Mae'r rhwydwaith tramor wedi newid ychydig eleni. Er mwyn sicrhau bod ein swyddfeydd tramor yn cyd-fynd yn well â'n hamcanion, rydym wedi newid lleoliad ein swyddfa yng Ngorllewin Arfordir UDA o San Francisco i Los Angeles. Mae hyn yn rhoi mwy o fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd masnachu a buddsoddi sy'n cyd-fynd yn llwyr â'n blaenoriaethau.

## Asia

- Beijing
- Chongqing

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- Shanghai
- Bangalore
- Mumbai
- New Delhi
- Tokyo

## Ewrop

- Brwsel
- Berlin
- Düsseldorf
- Dulyd
- Paris
- Llundain

## Gogledd America

- Atlanta
- Chicago
- Efrog Newydd
- Los Angeles
- Washington DC
- Montréal

## Y Dwyrain Canol

- Doha
- Dubai

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

## 2. Rhwydwaith byd-eang

### Cyflwyniad

Mae ein rhwydwaith o swyddfeydd tramor wedi'i rannu'n dri rhanbarth: Ewrop, Gogledd America a'r Dwyrain Canol ac Asia. Mae gan bob rhanbarth ffocws wedi'i deilwra i'w gryfderau, a buddiannau Cymru, fel yr amlinellir yn eu cylchoedd gwaith rhyngwladol. Mae'r adran hon yn nodi uchafbwyntiau'r gweithgarwch a wnaethpwyd ym mhob rhanbarth yn ystod 2023-2024.

### Ewrop

Mae Ewrop yn parhau'n ffocws allweddol i'n gwaith rhyngwladol. Mae ein swyddfeydd yn Ewrop yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â sefydliadau, rhwydweithiau, gwledydd a rhanbarthau Ewrop i ddangos bod Cymru yn parhau'n rhan weithredol o Ewrop a datblygu ymhellach ein henw da fel partner dibynadwy.

Bu presenoldeb gweinidogol sylweddol ledled Ewrop dros y 12 mis diwethaf gyda Gweinidogion yn teithio i Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Belg, Gwlad Pwyl ac Iwerddon.

Eleni, rydym wedi llofnodi **pedwar cytundeb rhyngwladol newydd** gyda phartneriaid Ewropeaidd, sy'n nodi meysydd cydweithredu a chysylltiadau agosach â'r gwledydd a'r rhanbarthau hynny lle mae gennym fuddiannau cyffredin. Mae hyn yn cynnwys:

- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd a chynllun gweithredu gyda Fflandrys -ym mis Mehefin 2023, ymwelodd Gweinidog-Lywydd Fflandrys â Chymru gyda'r prif bwrpas o lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Cyfarfu'r Prif Weinidog hefyd â'r Gweinidog-Lywydd yn ystod ei ymweliad â Brwsel Ddydd Gŵyl Dewi.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- Ail-lofnodi ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hirsefydlog gyda Llydaw yn nodi 20 mlynedd o'r berthynas rhwng Cymru a Llydaw.
- Llofnododd chwe phartner 'Ddatganiad Roazhon (Rennes)' newydd yn y Fforwm Celtaidd i gryfhau cydweithrediad rhyng-Geltaidd.
- Cyd-ddatganiad a chynllun gweithredu newydd gyda Baden-Württemberg, wedi'i lofnodi gan Weinidog yr Economi yn ystod ymweliad â Stuttgart.
- Cynllun gweithredu a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd gyda Silesia, Gwlad Pwyl **teithiodd y Prif Weinidog i Wlad Pwyl** er mwyn llofnodi'r Cytundeb, a oedd yn dilyn ymweliad Marsial Silesia â Chymru ym mis Mawrth 2023.

Ym Mrwsel, rydym wedi gweld mwy o ymgysylltu â sefydliadau'r UE, wedi'i gryfhau drwy ymgysylltu â Chynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Gweinidog yr Economi yn annerch Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol Senedd Ewrop ar agwedd Cymru tuag at ymgysylltu rhanbarthol Ewropeaidd. Rhaglen ehangach o gyfarfodydd gydag ASEau, CPMR, ac ymweliad â chyfleuster ymchwil IMEC yn Leuven.
- Ymweliad y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda Llywydd Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, ASEau a chynrychiolwyr yr UE i drafod y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a sut y gallwn ymgysylltu â sefydliadau'r UE yn y dyfodol.
- Annerch Pwyllgor Senedd Ewrop ar Ddiwylliant ac Addysg fel rhan o'i ymchwiliad ar symudedd y DU a'r UE. Roedd y cyfarfod yn gyfle i dynnu sylw at raglen Taith a phwysleisio ymrwymiad Cymru i ymgysylltu ag Ewrop.
- Cynnal Cynulliad Cyffredinol Comisiwn Bwa'r Iwerydd CPMR yng Nghaerdydd -gan ddod â gweinidogion ac uwch swyddogion o ystod o ranbarthau'r UE ynghyd, yn ogystal â Québec, i drafod cydweithredu rhyngranbarthol cryfach yn ardal yr Iwerydd. Cafodd y digwyddiad ei gyflwyno ar y cyd gan swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mrwsel a Chaerdydd a'r Senedd.

Gyda Ffrainc yn wlad ymroddedig ar gyfer ein hymgyrch 'Cymru yn...', a chynnal Cwpan Rygbi'r Byd, roedd Ffrainc yn ffocws cryf i Gymru yn 2023-2024. **Roedd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Enwch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

**tri Gweinidog yn Ffrainc ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd** yn hyrwyddo Cymru ac yn ehangu ein cysylltiadau ym Mharis, Bordeaux, Lyon, Nantes a Marseille. Roedd ffocws cryf ar hyrwyddo bwyd a diod ar draws y dinasoedd, yn dilyn ymgyrch fasnach Bwyd a Diod yn gynharach yn y flwyddyn, a ffocws cryf ar ymgysylltiad cwmnïau. Roedd ein partneriaid allweddol – Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Urdd – hefyd yn ein galluogi i gael elfen ddiwylliannol gref ar draws dinasoedd allweddol gyda'r flwyddyn Cymru yn Ffrainc, gan sefydlu Cronfa Ddiwylliannol newydd i Gymru yn Ffrainc (wedi'i ariannu ar y cyd â'r British Council). Ariannwyd chwe phrosiect gwerth hyd at £100,000. Ceir rhagor o wybodaeth am weithgarwch a chanlyniadau Cymru yn Ffrainc yn yr astudiaeth achos ar dudalen 29.

Roedd ein swyddfa ym Mharis yn cefnogi presenoldeb Cymru yn Wythnos Seiber Ewrop yn Llydaw ac Arddangosfa Niwclear y Byd ym Mharis. Roedd gweithgareddau eraill yr economi carbon isel yn cynnwys ymgysylltu â rhanbarthau Pays de la Loire a Hauts de France ar ynni gwyrdd, ac roedd y tîm wedi helpu i sicrhau dirprwyaeth fusnes o Ffrainc i Gynhadledd Ynni Morol Cymru.

Rydym wedi gweithio gyda chwmnïau bwyd a diod sy'n ymuno â'r farchnad yn Ffrainc a chyda phartneriaid i gefnogi allforwyr yng Nghymru sy'n cael anawsterau gyda gwiriadau tollau ar y ffin â Ffrainc. Fe wnaeth ymyriad y tîm atal allforio bwyd gwerth £200,000 rhag cael ei ddinistrio.

Mae 2024 yn nodi 20 mlynedd ers y berthynas rhwng Cymru a Llydaw. Bydd y dathliadau'n cynnwys ymweliad gan Arlywydd Llydaw â Chymru, ymgysylltu ag ynni'r môr a phrosiect ar y cyd rhwng Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ac Orchestre National de Bretagne.

Yn yr Almaen, mae ein gweithgarwch wedi canolbwyntio ar ogledd Rhine-Westphalia a Baden-Württemberg, gyda Gweinidog yr Economi yn ymweld â'r ddwy dalaith ddiwedd 2023 i gefnogi teithiau masnach a chryfhau cyfleoedd masnach a buddsoddi. Roedd y gweithgarwch yng Ngogledd Rhine-Westphalia yn cynnwys cyfarfodydd â diwydiant a chlystyrau ynghylch cydweithio ar brosiectau economi gylchol yr Almaen a oedd yn gysylltiedig â Chymru yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

cynnal yr Economi Gylchol ym mis Hydref 2024, yn ogystal â chefnogaeth i ddirprwyaeth o 23 o arddangoswyr o Gymru yn MEDICA yn Düsseldorf – ffair fasnach feddygol fwyaf y byd.

Bu'r tîm hefyd yn annerch Grŵp Seneddol y DU-Gogledd Rhine-Westphalia, gan drafod cyfnewid myfyrwyr rhyngwladol, yr iaith Almaeneg yng Nghymru, cysylltiadau â'r Almaen ar ôl Brexit a sero net. Rydym yn cynnal trafodaethau â'r Grŵp Seneddol ynghylch ymweliad â Chymru yn 2024.

Mae timau yn yr Almaen a Chaerdydd wedi treulio'r 12 mis diwethaf yn paratoi'r tir er mwyn i Weinidogion Cymru lofnodi **Cyd-ddatganiad o Gydweithredu â Baden-Württemberg** (B-W). Llofnododd Gweinidog yr Economi y Datganiad ar ran Llywodraeth Cymru a chynhaliodd gyfarfodydd dwyochrog gyda Gweinidogion B-W ar wyddorau bywyd a buddiannau economaidd cyffredin ymhellach.

Buom yn cynrychioli Cymru yng nghynhadledd Four Motors for Europe ar e-symudedd, yn ogystal â'r Diwrnod Cyflenwyr Modurol yn Stuttgart, gan arddangos asedau ac arbenigedd Cymru i arbenigwyr o amrywiaeth o ranbarthau yn Ewrop. Buom hefyd yn y Sioe Batris yn Stuttgart, yn cynllunio'r camau nesaf gyda chlwstwr symudedd B-W o amgylch hydrogen, ymchwil 5G, gweithdai mynediad i'r farchnad a diwrnod cyflenwyr modurol Stuttgart.

Gan adeiladu ar ein ffocws diplomyddiaeth chwaraeon, gwnaethom gefnogi'r Urdd (mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru) i ddarparu gweithgaredd "Chwarae yn Gymraeg" gydag ysgol bartner yn Sinsheim yn y cyfnod cyn gêm bêl-droed menywod Cynghrair y Gwledydd UEFA. Helpodd y gweithgaredd hwn i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a dangos cefnogaeth i dîm menywod Cymru. Roedd y swyddfa hefyd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yng Nghomisiwn Diwylliannol y Du-yr Almaen yn Swyddfa Dramor yr Almaen, a oedd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Weinidog y DU dros Ewrop a Gweinidog yr Almaen dros Gysylltiadau Diwylliannol. Hwn oedd cyfarfod cyntaf y Comisiwn hwn ers 1993.

Gan weithio gyda Chynrychiolydd Bafaria yn y DU, daethom ag academyddion,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).



diwydiant a llunwyr polisïau at ei gilydd ar gyfer Bwrdd Crwn Technoleg Amaeth rhithiol rhwng Bafaria a Chymru. Trafododd y cyfarfod rai o'r heriau a'r meysydd diddordeb mwyaf ym maes technoleg amaethyddol er mwyn sefydlu meysydd diddordeb cyffredin allweddol. Arweiniodd yr ymgysylltu hwn at ein cyflwyniad ar gysylltiadau technoleg amaethyddol Cymru-Bafaria â Phwyllgor Llywio'r DU-Bafaria, dan gadeiryddiaeth Gweinidog Bafaria dros Ewrop ac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol y DU.

Roedd yr ymgysylltu ar draws gwladwriaethau eraill yn yr Almaen yn cynnwys cefnogi cenhadaeth fasnach cyhoeddwy Cymru yn 75ain Ffair Lyfrau Frankfurt a bod yn bresennol yn Semicon Europa, gan roi'r cyfle i gwrdd â chwmnïau sy'n awyddus i ymgysylltu â chlwstwr Cymru a Llywydd Semi, cyn lansio Semi UK yng Nghaerdydd, sy'n dod â gwneuthurwyr penderfyniadau blaenllaw i Gymru o rai o brif gwmnïau lled-ddargludyddion y byd.

Mae Gweinidogion a swyddogion wedi parhau i gydweithio drwy gydol y flwyddyn i gyflawni Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Cymru-Iwerddon. Mae swyddfa Iwerddon wedi adeiladu ar y cyfnewidiadau polisi presennol ac wedi sefydlu meysydd cydweithredu newydd mewn meysydd fel amaethyddiaeth, coedwigaeth a mawndiroedd, menter a masnach, addysg, arloesedd a chyllid. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r tîm wedi gweithio'n uniongyrchol gydag allforwyr Gwyddelig a thimau polisi perthnasol yn llywodraethau Iwerddon a'r DU ar rôl rheolaethau ffiniau newydd sy'n effeithio ar sianeli masnach o Iwerddon i borthladdoedd Cymru.

Mae swyddfa Dulyn wedi dathlu'r cysylltiadau diwylliannol ymhellach yng Ngŵyl Lleisiau Eraill yn Dingle ac Aberteifi, gyda'r Prif Weinidog yn agor yr Ŵyl yn Aberteifi, yn cymryd rhan mewn sesiwn panel ac yn cynnal derbyniad. Sicrhawyd rhagor o gyfleoedd yn Iwerddon i artistiaid o Gymru mewn digwyddiadau diwylliannol allweddol fel Gŵyl Ymylol Dulyn a Gŵyl San Padrig.

Mae tîm Iwerddon wedi cefnogi ymweliadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys hwyluso rhaglen ymweliadau deuddydd Pwyllgor y Senedd ar Gysylltiadau Rhyngwladol sy'n ymchwilio i berthynas Cymru-Iwerddon ac ymweliad Prifysgolion Cymru i sefydlu cysylltiadau â'r Cyngor Prydeinig,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cymdeithas Prifysgolion Iwerddon, Coleg y Drindod a Choleg Prifysgol Dulyn. Cynhaliodd y swyddfa ymweliad deuddydd ar gyfer y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn Nulyn, a oedd yn cynnwys dau dderbyniad ar gyfer rhanddeiliaid Cymru-Iwerddon fel rhan o ddatliadau Dydd Gŵyl Dewi.

Mae tîm Iwerddon wedi canolbwyntio'n gryf ar gyfleoedd masnach a buddsoddi ac wedi cefnogi busnesau Cymru yn Uwchgynhadledd Hedfan Dulyn, Cynhadledd Gwynt ar y Môr y Byd, Uwchgynhadledd Dechnoleg Dulyn a chynadleddau ARVR. Ar ben hynny, mae'r tîm wedi cysylltu busnesau Cymru â chyfleoedd sector yn Iwerddon ym maes sectorau allweddol fel Gwyddorau Bywyd ac Awyrofod ac wedi mynd i ddigwyddiadau Archwilio Allforio yng Nghymru.

Mae'r tîm wedi cefnogi prosiectau ail-fuddsoddi gan fusnesau Gwyddelig sydd ag ôl troed presennol yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn. Dathlodd y tîm fuddsoddiad Iwerddon yng Nghymru drwy ddigwyddiadau gyda Siambr Fasnach Prydain Iwerddon a chinio buddsoddwyr a gynhaliwyd gan Lysgennad y DU yn Nulyn. O ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith parhaus, mae sefydliad ymchwil glinigol o'r radd flaenaf sydd â'i bencadlys yn Nulyn yn datblygu ac yn creu swyddi newydd yn ei ganolfan yn Abertawe eleni.

Cynhaliwyd **Fforwm Gweinidogol Cymru-Iwerddon** Iwerddon 2023 ym Mangor ym mis Hydref gyda'r Prif Weinidog, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd. O Lywodraeth Iwerddon, gwnaethom groesawu Tánaiste a Simon Harris TD, y Gweinidog Addysg Bellach a Sgiliau, Taoiseach erbyn hyn. Roedd y rhaglen ddeuddydd yn cynnwys ymweliadau safle a thrafodaethau bord gron yn arddangos amrywiaeth o gryfderau Cymru.

Mae'r Fforwm yn parhau i feithrin cysylltiadau newydd a dyfnhau'r berthynas ddwyochrog ar draws nifer o themâu a sectorau.

Eleni, mae wedi galluogi mwy o gydweithio ac ymgysylltu rhwng sefydliadau yn y sectorau Morol, Ynni Adnewyddadwy, Iaith, Technoleg Amaeth a'r Amgylchedd ac mae wedi arwain at ragor o gyfarfodydd ac ymweliadau dwyochrog rhwng Iwerddon a Chymru ar heriau cyffredin a chyfnewidiadau polisi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Gogledd America

Yng Ngogledd America, parhaodd ein perthynas gryfach ag Alabama a diplomyddiaeth chwaraeon i fod yn gefndir i rai o'r prif feysydd gwaith dros y 12 mis diwethaf.

Wrth gryfhau ein cysylltiadau diwylliannol ag Alabama, ymwelodd Côr Gospel Prifysgol Alabama Birmingham â Chymru mewn partneriaeth â'r Urdd, yn ogystal ag **ymweliad gan Weinidog yr Economi** i lofnodi **Cytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol Cymru-Birmingham** yn yr hydref. O ganlyniad i'n perthynas sy'n datblygu, mae ein swyddfeydd wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda Swyddfa'r Maer ar ddatblygu nodau'r Cytundeb, Prifysgol Alabama yn Birmingham - sy'n gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar gyfnewid myfyrwyr meddygol - a chyfarfodydd gydag arweinwyr diwydiant yn Birmingham ar gyfleoedd buddsoddi sy'n canolbwyntio ar wyddorau bywyd a thechnoleg. Mae partneriaethau economaidd yn cael eu harchwilio ac mae posibilrwydd y bydd dirprwyaeth fusnes a diwylliannol Birmingham yn ymweld â Chymru yn ystod Haf 2024. Mae rhagor o wybodaeth am ymweliad Gweinidog yr Economi, a'n perthynas ag Alabama, ar gael ar dudalen 36.

Cafodd 14 o aelodau ychwanegol eu hychwanegu at Gawcws Cyfeillion Cyngresol Cymru, gan gynyddu'r Cawcws 70%. Mae'r llwyddiant hwn wedi'i gyflawni yn dilyn meithrin perthynas lwyddiannus yn ystod ymweliad Gweinidog yr Economi â Birmingham, a'r tîm ehangach yn cynnal digwyddiad ar y cyd â Chymdeithas Penaethiaid Staff y Tŷ, ymysg eraill. Dathlwyd hyn, a phen-blwydd y Cawcws yn 10 oed, mewn digwyddiad 'State of the Whisky' yng Nghapitol yr Unol Daleithiau cyn Cyflwr yr Undeb ac ar y cyd â Phenderyn.

Roedd diplomyddiaeth chwaraeon yn ffocws cryf i'r tîm gyda'r 'Haf o Bêl-droed Cymru' yn cael ei gynnal ledled UDA. Chwaraeodd Clwb Pêl Droed Wreccsam bedair gêm yn UDA a gwahoddodd Tîm Cenedlaethol Menywod yr Unol Daleithiau Cymru i chwarae yn San Jose. Cydweithiodd y swyddfeydd â Croeso Cymru i hyrwyddo Wreccsam a Chymru fel cyrchfannau i dwristiaid yng ngemau Wreccsam, tra bod buddsoddwyr yn cael croeso ym mhob gêm i arddangos

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cymru fel cyrchfan busnes. Yn yr un modd, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, fe wnaethom ddefnyddio gêm Cymru i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan busnes – fe wnaeth cwmni a ddaeth i un o'r gemau hyn fuddsoddi'n sylweddol yng Nghymru yn ddiweddarach. Ar ben hynny, bu tîm Unol Daleithiau America yn hyrwyddo dau dîm o Gymru yng Nghwpan Pêl-droed Digartref y Byd yn Sacramento (cynhaliwyd iteriad cyntaf y Cwpan yng Nghymru). Ym mis Hydref, gwnaethom ffurfio partneriaeth â Llysgenadaethau Georgia a Phortiwgal yn Washington DC mewn digwyddiad Cwpan Rygbi'r Byd oedd yn dathlu gwledydd 'Grŵp C'.

Eleni, rydym hefyd wedi datblygu nifer o bartneriaethau addysgol. Buom yn gweithio gyda Chymru Fyd-eang i gynnal digwyddiad i ddathlu ei phartneriaeth newydd gyda Rhaglen Ysgoloriaeth Gilman, Cynlluniau Seren a Taith Llywodraeth Cymru a chefnogi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Canada. Cefnogodd y tîm hefyd y cytundeb partneriaeth newydd rhwng Prifysgol Illinois a Phrifysgol Caerdydd, sy'n creu cronfa symudedd ar y cyd gwerth £200,000 y flwyddyn am 5 mlynedd. Roedd hyn yn benllanw dros 3 blynedd o feithrin perthynas ac yn nodi dechrau pennod newydd sylweddol o gydweithio.

Yn ystod y flwyddyn, mae tîm Gogledd America wedi bod yn bresennol mewn cynadleddau allweddol. Roedd timau ar draws y rhanbarth yn cefnogi presenoldeb Cymreig yn yr uwchgynhadledd AI yn Montréal, cynadleddau Datblygwyr Seiber a Gemau RSA yng Nghalifornia, MRO Americas yn Atlanta a chynhadledd flynyddol y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal lechyd yn Chicago, ymysg eraill.

Mae Nantes yn ddinas o gelf a diwylliant gydag agenda cynaliadwyedd flaengar ac mae'r allgymorth rygbi yma wedi cynnal dau ddiwyddiad arddangos ar raddfa fwy, ochr yn ochr â rhaglen helaeth o ysgogi strategol a gweithgareddau wedi'u cyflwyno gan bartneriaid yn Llydaw a Nantes a oedd yn cynnwys allgymorth ysgolion gyda dros 800 o blant, digwyddiadau Cymraeg, lletygarwch rygbi, cynrychiolwyr, perfformiadau parth cefnogwyr a thrafodaethau bwrdd crwn busnes.

Un o'r uchafbwyntiau oedd Cyngor Caerdydd, Llywodraeth Cymru a Nantes Métropole yn cefnogi Clwb Ifor Bach a lleoliad yn Ffrainc, Stereolux, i gydweithio ar gynnal arddangosfa gerddoriaeth fyw lle chwaraeodd bandiau hip-hop a phync Cymreig ochr yn ochr â bandiau o Lydaw, Bordeaux a Nantes. Roedd y cyfle hefyd yn sbarduno partneriaeth am y tro cyntaf rhwng darlledwyr cenedlaethol yng Nghymru a Ffrainc, S4C a France3 (cwmni darlledu teledu am ddim cenedlaethol Ffrainc), a oedd yn bartner yn y gwaith o ffilmio a darlledu'r gig yn Gymraeg, Llydaweg a Ffrangeg.

Gan ddangos yr ymrwymiad i gydweithio, mabwysiadodd Cymru lleoliad lleol Maison de l'Europe fel Tŷ Cymru ar gyfer y twrnaint, gan weithredu fel canolfan ddiplomyddol dros dro. Drwy'r bartneriaeth, cynhaliodd y lleoliad fis o weithgareddau gan gynnwys gwersi Cymraeg mynediad agored, arddangosfa a digwyddiad rhwydweithio ac arddangosfa ddiwylliannol. Chwe mis yn ddiweddarach, mae ein cysylltiadau yno yn dal i gynnal ymholiadau gan bartneriaid Nantes ar gyfer ymgysylltu â Chymru.

Fel ail ddinas ffocws gweithgareddau diplomyddiaeth chwaraeon Cwpan Rygbi'r Byd, rhannodd Lyon werthoedd Cymru ar gynhwysiant, amrywiaeth a chynaliadwyedd a oedd, ynghyd â ffocws ar arddangos bwyd, yn fannau cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

yr oedd Cymru yn eu defnyddio i feithrin ymgysylltiad. Gweithiodd Llywodraeth Cymru ar y cyd â Hybu Cig Cymru, Arloesi Bwyd Cymru a Cité Internationale de la Gastronomie ar arddangosfa bwyd a diwylliant a gynhaliwyd gan y Gweinidog i ddathlu mai Ffrainc yw'r brif gyrchfan allforio ar gyfer cynnyrch o Gymru.

Cefnogodd yr Urdd gôr ieuenctid o 35 o Gymry o Gaerfyrddin i berfformio ar draws y ddinas gyda'r soprano enwog Jessica Robinson ac arweiniodd weithdai allgymorth mewn ysgolion uwchradd lleol. Rhoddodd raglen ddiwylliannol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru lwyfan i Querin hefyd, dawnswyr cyfoes sy'n plethu dawnsio gwerin Cymreig gyda bywyd nos cwiar, i arddangos yng ngŵyl Biennale enwog Lyon a pherfformio mewn ardaloedd i gefnogwyr.

Fel enghraifft fyd-eang o elfennau amlddiwylliannol ac amrywiaeth yn y celfyddydau, roedd ymgysylltiad Cymru â Marseille yn cynnwys perfformiad gan Jukebox o Butetown yng Nghaerdydd yn Vieux Port ac ymweliad gan Asiant Newid Cyngor Celfyddydau Cymru, a agorodd ddrysau i fwy o waith gyda'i gilydd i ddeall cyfleoedd i gefnogi amrywiaeth yn y celfyddydau.

Agorodd y flwyddyn Cymru yn Ffrainc a daeth i ben gyda Chymru yn croesawu dirprwyaeth gysylltiadau busnes a diplomyddol o Ffrainc yn y Chwe Gwlad, gan ddangos pwysigrwydd manteisio ar gyfleoedd codi proffil chwaraeon i'r rhaglen ehangach. Mae'r tîm wedi comisiynu gwerthusiad o'r flwyddyn i'w gynnal i lywio a darparu tystiolaeth ar gyfer polisi yn y dyfodol a gwella ein dealltwriaeth a'n harbenigedd ym maes diplomyddiaeth chwaraeon ac arferion a pholisi cysylltiadau diwylliannol ar amrywiaeth o raddfeydd ac uchelgeisiau.

## Cymru ac Affrica

Un o brif uchelgeisiau ein Strategaeth Ryngwladol oedd sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Nod rhaglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru yw cyflawni'r uchelgais hon drwy ddatblygu partneriaethau cynaliadwy yn Affrica Is-Sahara, gan gefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Ers bron i 20 mlynedd, mae Cymru wedi bod yn datblygu ac yn dyfnhau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

cysylltiadau a phartneriaethau cymunedol neu sefydliadol gydag Affrica Is-Sahara. Mae partneriaethau'n nodweddu dull Cymru o ddatblygu rhyngwladol, gan rannu profiadau a gwybodaeth mewn ysbryd o barch a dwyochredd gan y naill ochr a'r llall.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica (2020-2025) yn nodi nifer o gamau gweithredu allweddol sy'n cefnogi Cymru i gyflawni'r uchelgais o fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Cafwyd nifer o lwyddiannau allweddol yn erbyn y camau gweithredu hyn yn ystod 2023-24, gan gynnwys gweithio'n agos gyda Masnach Deg Cymru, Fforwm Masnach Deg yr Alban a Llywodraeth yr Alban i ddatblygu meini prawf newydd i wledydd eu defnyddio wrth weithio tuag at eu statws Cenedl Masnach Deg a'i gynnal. Cynhaliwyd digwyddiad i dynnu sylw at y meini prawf newydd ac i ddathlu 15 mlynedd o fod yn Genedl Masnach Deg yng Nghymru yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2023.

Trefnodd tîm Cymru ac Affrica hefyd 9 lleoliad Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO) llwyddiannus yn ystod 2023-2024 – un yn Uganda, tri yn Namibia a phump yn Lesotho. Roedd gweithwyr proffesiynol o Gymru o wahanol sectorau ac ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd yn gallu rhannu eu harbenigedd a helpu sefydliadau yn Affrica i wneud newidiadau cadarnhaol. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'r manteision hefyd, gan ddychwelyd adref gyda sgiliau newydd a safbwyntiau ffres sy'n eu gwneud yn fwy effeithiol yn eu rolau bob dydd.

Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn cynnwys ymrwymiad cryf i gydraddoldeb rhwng y rhywiau – cydnabyddiaeth bod gan fenywod hawl i gael yr un hawliau a chyfleoedd â dynion, ac i fyw heb drais a gwahaniaethu. Mae Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica yn ymrwymo i weithredu ar rywedd a chydraddoldeb yn Uganda a Lesotho.

Yn ardaloedd Mbale a Masaka yn Uganda, mae menywod yn aml yn cael eu gwthio i'r cyrion mewn bywyd gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol. Mewn prosiect peilot blwyddyn o hyd, nod Maint Cymru oedd cryfhau rôl menywod a merched wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gynaliadwy – gan eu helpu i fod yn asiantau dros newid. Gyda chyllid gan Grant Grymuso Rhywedd Cymru ac Affrica, fe wnaeth Maint Cymru ddylunio'r prosiect ar y cyd â thri sefydliad partner: Mount Elgon Tree Growing Enterprise, Masaka District Landcare Chapter Leadership, a'r International Tree Foundation. Roedd eu gwaith yn cynnwys amrywiaeth o gynlluniau i gael effaith gadarnhaol ar fywydau menywod, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Un o'r gweithgareddau mwyaf effeithiol oedd hyfforddi 44 o bencampwyr rhywedd – 25 o ferched ac 19 o ddynion. Roeddent yn cael cyfle i wella eu sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm, cydlynu a rhwydweithio. Ar ben hynny, cafodd 40 o fenywod eu hyfforddi mewn arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau, ac roeddent yn gallu trosglwyddo eu hyfforddiant i 664 o fenywod eraill. Mae'r prosiect wedi creu cyfleoedd bywoliaeth cynaliadwy sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, gan helpu menywod i gynhyrchu incwm drwy sefydlu gerddi cegin, tyfu cnau cashiw a chadw gwenyn. Rhoddwyd cyllid sbarduno, hyfforddiant ac offer hanfodol i'r cyfranogwyr. Drwy ddarparu mynediad haws at ddŵr glân, roedd y prosiect hefyd wedi helpu i wella ansawdd bywyd menywod yng nghefn gwlad Uganda – lle'r oedd rhai ohonynt wedi gorfod cerdded am hyd at bedair awr i gasglu dŵr yn y gorffennol. Nodwyd bod yr absenoldebau hyn o'r cartref yn achos rheolaidd dros drais yn y cartref. Cafodd 19 o gymdeithasau cynilo a benthycia lleol gymorth hyfforddi, gan fynd i'r afael â phynciau gan gynnwys llythrennedd ariannol, rheoli, cadw cofnodion ac adennill benthyciadau.

Roedd y prosiect yn herio ac yn newid agweddau at rywedd mewn cymunedau gwledig yn Uganda. Mae menywod bellach yn gallu prynu tir yn eu henwau eu hunain – arfer nad oedd yn cael ei ganiatáu o'r blaen. Mae'r cyfranogwyr wedi dweud eu bod yn fwy hyderus i wneud penderfyniadau, ar lefel y teulu a'r gymuned. Mae nifer o fenywod bellach yn bwriadu sefyll mewn etholiadau lleol. Yng Nghymru, mae'r straeon hyn wedi cael eu rhannu'n eang i godi ymwybyddiaeth o'r effaith y mae newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar fenywod, a'u rôl wrth fynd i'r afael â'r argyfwng. Cynhaliwyd cyflwyniadau yn ystod digwyddiadau COP27 Ieuenctid Cymru, uwchgynhadledd haf Hub Cymru Affrica, digwyddiadau i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac ymweliadau ag ysgolion a grwpiau cymunedol. Mae Maint Cymru wedi ymgysylltu â dros 700 o bobl ifanc ac aelodau eraill o'r cyhoedd, gan gynnwys llawer o'r Affricaniaid sy'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).



byw yng Nghymru.

Cafodd nifer o sefydliadau yng Nghymru gyllid drwy raglen Cymru ac Affrica i gydweithio'n agos â'u partneriaid yn Affrica, i gyflawni prosiectau sy'n newid bywydau: darparu gwell bywoliaeth i fenywod, hyrwyddo'r broses o integreiddio rhywedd i frwydro yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd, a helpu merched i gwblhau eu haddysg. Er enghraifft, gan weithio gyda sefydliadau partner yn Uganda, lluniodd Maint Cymru brosiect a oedd yn grymuso menywod gwledig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a materion cynaliadwyedd yn eu cymunedau. Roedd y prosiect hwn hefyd wedi helpu i weithio tuag at yr ymrwymiad plannu coed a nodir yn ein Cynllun Gweithredu, i gefnogi dosbarthu dros 3m o goed bob blwyddyn yn Uganda, gan weithio tuag at darged Maint Cymru o 50 miliwn o goed erbyn 2030.

Ym mis Mawrth, cefnogodd rhaglen Cymru ac Affrica Hub Cymru Affrica i gynnal digwyddiad dathlu hynod lwyddiannus a bywiog yn y Senedd. Roedd y digwyddiad hwn yn cydnabod gwaith caled, ymroddiad a chyflawniadau'r gymuned datblygu ac undod rhyngwladol yng Nghymru, sy'n gweithio'n ddiflino tuag at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

## Perthynas Cymru â Birmingham, Alabama

Mae gan Gymru berthynas â dinas Birmingham, Alabama, sy'n mynd yn ôl ddegawdau. Deilliodd y berthynas o ymateb pobl Cymru i'r digwyddiadau trasig ar 15 Medi 1963, pan gafodd Eglwys y Bedyddwyr ar Stryd 16 ei bomio mewn gweithred o derfysgaeth goruchafol wyn gan y Ku Klux Klan. Lladdodd y ffrwydrad yn yr eglwys bedair o ferched oedd yn mynd i'r Ysgol Sul ac anafodd 22 o bobl eraill. Cafodd yr eglwys ei hun ei difrodi'n sylweddol, gwnaeth y bom dwll anferthol yn ei hochr, chwalwyd pob un o'r ffenestri a dinistriwyd wyneb Iesu ym mhrif ffenestr gwydr lliw'r eglwys.

Roedd y bomio'n foment arwyddocaol yn hanes Unol Daleithiau America, gan newid cwrs y mudiad hawliau sifil am byth ac, yn ôl llawer, daeth yn gatalydd ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gyfer Deddf Hawliau Sifil 1964 a Deddf Hawliau Pleidleisio 1965. Adroddwyd am y bomio yn rhyngwladol. Fel arwydd o undod â'r gymuned Affricanaidd Americanaidd yn Birmingham, cododd pobl Cymru arian i greu ffenestr gwydr lliw ar gyfer yr eglwys, wedi'i dylunio gan yr artist o Gymru, John Petts. Mae Ffenestr Cymru yn darlunio croeshoeliad Iesu Grist du, gyda'r llaw dde yn gwthio casineb ac anghyfiawnder i ffwrdd, a'r llaw chwith yn cynnig maddeuant. Cafodd y Ffenestr ei chyflwyno yn 1965 ac mae'n dal yn rhan ganolog o gymuned Eglwys Bedyddwyr Stryd 16.

Gan adeiladu ar y cyswllt hanesyddol rhwng Cymru ac Eglwys Bedyddwyr Stryd 16, bu gweithgarwch parhaus rhwng sefydliadau yng Nghymru a Birmingham, gan ganolbwyntio ar addysg a diwylliant. Mae swyddfa Atlanta Llywodraeth Cymru wedi gweithio i ddatblygu perthnasoedd a hwyluso cysylltiadau ers 2018. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi diddordeb mewn datblygu'r berthynas â Chymru, o ystyried y cysylltiad naturiol hwn, ac mae cysylltiadau ar ddwy ochr yr Iwerydd wedi bod yn groesawgar ac yn frwdfrydig.

Ymwelodd y cyn Weinidog Addysg, Kirsty Williams, yn 2019. Datblygodd Prifysgol Alabama yn Birmingham (UAB) raglen astudio dramor flynyddol ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn 2020 ac yn 2022, daeth côr o Urdd Gobaith Cymru, sefydliad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru, i ymweld â'r ddinas cyn i Gôr Gospel UAB ymweld â Chymru yn ystod haf 2023.

Yn 2023, nodwyd 60 mlynedd ers y bomio a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yng Nghymru ac Alabama i nodi'r achlysur hwn. Un o'r partneriaethau diwylliannol sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd yw'r bartneriaeth honno rhwng Prifysgol Alabama yn Birmingham (UAB) a'r Urdd. Ym mis Mehefin 2023, perfformiodd Côr Gospel UAB ledled Cymru, gan gynnwys yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri ac yn fyw ar S4C. Yng Nghaerdydd, perfformiodd Côr Efengyl UAB yn y Senedd mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan y Prif Weinidog ac ym mhresenoldeb dau fab John Petts – dylunydd Ffenestr Cymru.

Ym mis Medi, teithiodd Gweinidog yr Economi i Alabama i lofnodi Cytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol rhwng Cymru a Birmingham a nodi 60 mlynedd ers y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

bomio. Ar ben hynny, dilynodd raglen ehangach, gan gwrdd â busnesau a sefydliadau economaidd o'r rhanbarth, swyddogion blaenllaw o'r Unol Daleithiau, y Wladwriaeth a'r Ddinas ac arweinwyr o fudiad hawliau sifil Alabama. Bu'r Gweinidog yn siarad ochr yn ochr â Ketanji Brown Jackson, Barnwr Goruchel Lys yr Unol Daleithiau, yn sgil gwahoddiad gan Eglwys Bedyddwyr Stryd 16 wrth iddi goffáu 60 mlynedd ers y bomio.

Roedd cyfraniad y Gweinidog i'r seremoni hefyd yn gyfle i Gymru roi teyrnged i etifeddiaeth barhaus yr ymgyrch dros gyfiawnder hiliol y mae Birmingham wedi'i hyrwyddo, sydd wedi ysbrydoli pobl o liw ledled y byd, gan gynnwys yma yng Nghymru. Roedd yn gallu cwrdd â ffrindiau a theuluoedd y dioddefwyr a chyfleu neges o undod a chyfeillgarwch ar ran pobl Cymru. Mewn ennyd deimladwy yn ystod yr ymweliad, croesawyd y Gweinidog i gartref Lisa McNair a Kimberly Brock McNair, a gollodd eu chwaer 11 oed, Denise yn y bomio, a chyflwynodd rodd iddynt o Gymru. Clywodd hefyd am ymdrechion eu tad i ddogfennu'r Mudiad Hawliau Sifil a bywyd fel Americanwr Affricanaidd yn ystod y 1960au drwy ffotograffiaeth.

Dros y chwe degawd diwethaf, mae Cymru a Birmingham wedi meithrin perthynas ystyrlon a hirsefydlog sy'n seiliedig ar gyfeillgarwch. Roedd ymweliad y Gweinidog yn gyfle i ffurfioli'r cyfeillgarwch hwn drwy lofnodi Cytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol, rhwng Cymru a dinas Birmingham, gyda'r Maer Randall Woodfin yn llofnodi'r cytundeb ar ran Birmingham. Y gobaith yw y bydd y Cytundeb, yn y blynyddoedd i ddod, yn adeiladu ar y cysylltiadau hyn drwy feithrin mwy o gydweithio, gwella cyfnewidiadau diwylliannol, cefnogi cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cryfach, a chreu manteision i'r ddau ranbarth ar draws meysydd allweddol y Celfyddydau a Diwylliant, Gwyddorau Bywyd a Gofal Iechyd, ac Addysg.

Fel symbol o'r cyfeillgarwch hwn, cymerodd y Gweinidog ran mewn seremoni cyflwyno coed ym Mharc Kelly Ingram, ochr yn ochr â Maer Woodfin. Roeddent yn rhoi pedair coeden er cof am y pedair merch a lofruddiwyd - Addie Mae Collins, Cynthia Morris Wesley, Carole Robertson a Denise McNair. Dadorchuddiwyd plac coffa i nodi'r 60 mlynedd o gyfeillgarwch rhwng Cymru a Birmingham. Mae'r plac yn cynnwys testun Cymraeg a Saesneg – “Mewn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

undod mae nerth – Strength in unity” – roedd yr ymadrodd Cymraeg pwysig hwn yn ganolog i sylwadau'r Gweinidog yn y seremoni, y Cytundeb Cyfeillgarwch ei hun a chafodd ei gyfleu drwy gydol yr ymweliad.

Cymerodd y Gweinidog ran mewn sesiwn banel gyda gweithredwyr blaenllaw o fudiad hawliau sifil Birmingham yn y Sloss Furnaces hanesyddol. Roedd hwn yn gyfle i drafod profiadau go iawn a'r camau rydyn ni'n eu cymryd yng Nghymru ac Alabama i fynd i'r afael â hiliaeth. Roedd sgwrsiau ynghylch cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn dangos ymrwymiad Cymru i gydraddoldeb. Roedd pobl ifanc o'r Urdd yn y sesiwn hefyd. Roeddent yn Birmingham i ddysgu am hawliau sifil a hyrwyddo neges Heddwch ac Ewyllys Da 2023 am wrth-hiliaeth.

Yn olaf, roedd cyfle i ddod â phartneriaid at ei gilydd a oedd wedi cefnogi'r ymweliad ac wedi datblygu'r Cytundeb Cyfeillgarwch. Cynhaliodd Sister Cities Birmingham dderbyniad coginio Deheuol traddodiadol ar gyfer rhanddeiliaid allweddol ar draws meysydd busnes, addysg a diwylliant ym mhartneriaeth Birmingham a Chymru. Roedd y digwyddiad yn gyfle i dreulio amser gyda gwirfoddolwyr ifanc o'r Urdd ochr yn ochr ag ymgyrchwyr hawliau sifil a'r partneriaid sy'n gyfrifol am ddarparu ein gweithgareddau cydweithredol.

Roedd hwn yn ymweliad cwbl ddifrifol i goffáu, ond hefyd yn ymweliad a oedd yn edrych ymlaen at ddyfodol gwell. Yn ogystal ag ysgogi prosesau cyfnewid yn y dyfodol, nododd cyfarfod bwrdd crwn gyda'r ecosystem fusnes yn Birmingham gyfleoedd addawol i ddatblygu cysylltiadau â Chymru mewn meysydd sy'n amrywio o oncoleg ac awtomeiddio ym maes gweithgynhyrchu. Roedd y Cytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol yn ailddatgan ymrwymiad ar y cyd ar lefel wleidyddol a chymunedol i yrru'r berthynas yn ei blaen.

Dim ond ychydig ddyddiau ar ôl yr ymweliad hwn, daeth Llysgennad yr Unol Daleithiau i'r DU, H.E. Jane D. Hartley i Gymru. Trafododd y Llysgennad Hartley ddigwyddiad Coffáu Birmingham a mynegodd ddiddordeb mewn cefnogi ymdrechion i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y ddwy gymuned i helpu i gynnal etifeddiaeth gadarnhaol i bobl yng Nghymru ac UDA, gan gryfhau'r cyfeillgarwch hwn ar bob lefel.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Lled-ddargludyddion Cyfansawdd – Cynnig Cymru

Mae Cymru YN gartref i'r clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf yn y byd. Mae'r clwstwr yn gartref i gwmnïau hynod arloesol, gweithwyr medrus, a gwaith ymchwil a datblygu uwch a arweinir gan y Brifysgol.

Mae'r clwstwr wedi cael ei nodi gan lywodraethau Cymru a'r DU fel ardal ar gyfer twf potensial uchel. Yn ne Cymru, mae'r clwstwr yn cael ei reoli gan fuddsoddwyr o UDA sy'n darparu swyddi o ansawdd uchel sy'n talu'n dda i'r rhanbarth. Ac ystyried hyn, a'r potensial mawr ar gyfer twf sydd wedi cael ei nodi, mae ffocws wedi bod ar hyrwyddo'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig yn y sector hwn, yn bennaf yn yr Unol Daleithiau, ond hefyd yn fyd-eang mewn digwyddiadau mewn marchnadoedd fel De Korea, Taiwan, Japan a'r Almaen.

Mae'r ffocws hwn ar y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd eisoes wedi addo darparu mwy na \$300m o fuddsoddiad newydd i Gymru o UDA yn unig - gan gefnogi dros 600 o swyddi eleni a thros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae rhagor o fuddsoddiadau i ddatblygu'r sector hefyd ar y gweill. Mae llawer o'r buddsoddiadau yn America yn deillio o feithrin perthynas rhwng Prif Weithredwyr cwmnïau mawr yn UDA a swyddogion Llywodraeth Cymru yng Nghymru a thramor.

Bu hefyd nifer o weithgareddau allanol yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo'r sector ar raddfa fyd-eang.

## UDA

Ym mis Mawrth 2023, ymwelodd Gweinidog yr Economi â KLA yng Nghaliffornia i drafod cynlluniau i fuddsoddi dros \$100 miliwn a chreu 200 o swyddi yn ei gyfleuster yng Nghasnewydd. Roedd cyfrinachedd masnachol, ac amseriad y cyfarfod, yn golygu nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn adroddiad blynyddol 2022-2023. Mae buddsoddiad KLA yn cynnwys cyfleuster ymchwil, datblygu a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gweithgynhyrchu newydd.

Bydd y ganolfan arloesi newydd o'r radd flaenaf yn darparu dros 25,000 troedfedd sgwâr o ystafelloedd glân ar gyfer ymchwil a datblygu a thros 35,000 troedfedd sgwâr o neuaddau cydosod gweithgynhyrchu pwrpasol, gan gynnwys swyddfeydd, ystafelloedd glân, cyfleusterau storio a chymorth i ddarparu ar gyfer hyd at 750 o weithwyr.

Arweiniodd ymrwymiad gan Weinidogion, gan ategu'r berthynas o ddydd i ddydd a ddatblygwyd rhwng ein timau yn yr Unol Daleithiau a Chymru a'r cwmni at fuddsoddiad sylweddol yng Nghymru gan arweinydd byd-eang yn y sector. Mae Prif Swyddog Gweithredol KLA wedi canmol y sector yng Nghymru gan ddweud y gall y buddsoddiad fanteisio ar "gronfa dalent ddeniadol y rhanbarth ac elwa o ansawdd bywyd deniadol gyda mynediad at lawer o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, parciau hanesyddol a gweithgareddau awyr agored".

Gan weithio gyda'n partneriaid, CSConnected, aeth tîm yr Unol Daleithiau i gynhadledd CS ManTech yng Nghaliffornia ym mis Mai 2023. Roedd y gynhadledd hon yn rhoi cyfle i ni adlewyrchu'r arloesedd o fewn cadwyn gyflenwi lled-ddargludyddion cyfansawdd Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2023, aeth dirprwyaeth o Lywodraeth Cymru i gynhadledd Semicon West yng Nghaliffornia. Yn ystod y gynhadledd hon, cafwyd trafodaethau gyda buddsoddwyr presennol, buddsoddwyr newydd ac Adran Fasnach yr Unol Daleithiau. Ar sail cymeradwyaeth Llywodraeth y DU i allu lled-ddargludyddion cyfansawdd Cymru, buom yn gweithio gyda'r Adran Busnes a Masnach yn San Francisco – gan gymryd rhan yn rhai o'r ymweliadau a'r cyfarfodydd a drefnwyd gan DBT, ochr yn ochr â'n rhaglen ein hunain. O ganlyniad uniongyrchol i bresenoldeb yn y digwyddiad hwn, gallai un buddsoddwr yn yr Unol Daleithiau gyhoeddi buddsoddiad yng Nghymru yn 2025 gan greu 50 o swyddi. Mae hon yn bartneriaeth sector preifat-cyhoeddus unigryw sy'n cynnwys y cwmni, CS Catapult a phrifysgolion lleol, gan gyflwyno swyddi gwerth uchel i'n graddedigion.

Ym mis Hydref, ymwelodd tîm yr Unol Daleithiau ag Arizona gyda Swyddfa Prif

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Gonswl Prydain yn Los Angeles i ddysgu am y sector lled-ddargludyddion yn Arizona ac i godi proffil y sector yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi noddi derbyniad ar gyfleoedd cydweithio rhwng dwy ochr yr Iwerydd.

Gan weithio gyda Space Forge US (cwmni o Gymru sydd wedi ehangu i UDA) a Llywodraeth y DU, gwnaethom gefnogi digwyddiad ym mis Ionawr 2024 a oedd yn archwilio gweithgynhyrchu gofod – gan gynnwys gweithgynhyrchu lled-ddargludyddion. Roedd y diwydiant, NASA ac arweinwyr llywodraeth ffederal yn bresennol yn y digwyddiad.

Mae SEMI yn sefydliad yng Nghaliffornia sy'n hyrwyddo'r sector lled-ddargludyddion. Lansiodd Semi UK ym mis Ionawr 2024 yng Nghastell Caerdydd gyda KLA a Gweinidog yr Economi. Cafodd ei greu i hyrwyddo sector lled-ddargludyddion y DU ac mae'n cynnwys uwch-lunwyr penderfyniadau o bob rhan o gwmnïau yn y DU ac yn rhyngwladol.

Ym mis Chwefror 2024, aeth tîm yr Unol Daleithiau i gynhadledd Photonics West yng Nghaliffornia gyda CSConnected. Roedd hyn yn gyfle arall i hyrwyddo'r clwstwr ar Arfordir y Gorllewin ac yn benodol i ddefnyddwyr lled-ddargludyddion.

Daeth y flwyddyn i ben pan gyhoeddwyd bod Vishay o Galiffornia wedi prynu Newport Wafer Fab. Bydd hyn yn golygu y bydd buddsoddiad o tua \$200m yn cael ei wneud i'r Fab a bydd 400 o swyddi'n cael eu diogelu. Cyhoeddodd Vishay ei fod yn barod i weithio gyda phrifysgolion lleol ar gyfleoedd ymchwil a datblygu. Ac ystyried llwyddiant y clwstwr, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r clwstwr mewn digwyddiadau priodol yn UDA ac yn parhau â'n trafodaethau gyda buddsoddwyr a nodwyd ymlaen llaw.

Yn fyd-eang, nodwyd bod prinder sgiliau yn y sector hwn. Mae gan brifysgolion yn y clwstwr nifer o gyfleoedd hyfforddi yn ogystal â galluoedd ymchwil a datblygu uwch.

Drwy gydol y flwyddyn, mae swyddogion o Lywodraeth Cymru yng Nghymru a thramor wedi gweithio'n agos gyda CSConnected a phrifysgolion perthnasol ar anghenion busnesau. Gan weithio gyda'n gilydd, rydym wedi gallu gweithio'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

uniongyrchol gyda busnesau ar becynnau hyfforddi pwrpasol sydd, yn eu tro, yn creu swyddi yng Nghymru.

Mae Deddf CHIPS yn UDA yn rhoi cyfle i brifysgolion Cymru gael eu hariannu i ymgymryd ag ymchwil a datblygu gyda phartneriaid Americanaidd. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith cwmpasu gyda phrifysgolion yn UDA (yn Arizona yn bennaf) ar feysydd posibl o gydweithio rhwng prifysgolion Cymru ac UDA. Gan weithio gyda CSConnected rydym yn trefnu taith i brifysgolion Cymru ymweld ag Arizona yn y dyfodol i ddatblygu dulliau cydweithredu ymchwil posibl ymhellach.

Rydym hefyd yn gweithio gydag Astudio yng Nghymru a Chymru Fyd-eang ar gyfleoedd cyfnewid ac ymchwil a datblygu posibl ym maes gweithgynhyrchu a deunyddiau uwch a chynhyrchu lled-ddargludyddion. Byddai hyn yn golygu cyllid gan Lywodraeth Ffederal yr Unol Daleithiau ac mae trafodaethau ar hyn yn mynd rhagddynt.

Mae ffocws y gwaith ar led-ddargludyddion cyfansawdd wedi digwydd yn Unol Daleithiau America yn bennaf. Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud mewn marchnadoedd eraill i ddangos gallu Cymru yn y sector hwn. Mae detholiad o weithgareddau isod:

## Asia a'r Môr Tawel

- Awstralia - Ymweliad gan Uwch Gomisiynydd Awstralia ag Wythnos Dechnoleg Cymru i edrych ar gyfleoedd i gydweithio â chlwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd Awstralia.
- Japan - Mae Prifysgol Abertawe yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd ar raglenni cydweithio gyda chwmnïau o Japan. Mae buddsoddwyr o Japan wedi ymweld â Chymru i archwilio cysylltiadau ar gyfer electroneg pŵer a ffotoneg pŵer uchel o ganlyniad i waith a wnaethpwyd gan swyddfa Llywodraeth Cymru yn Tokyo. Ymwelodd JETRO (Sefydliad Masnach Allanol Japan) â Llundain a chyfarfod swyddogion Llywodraeth Cymru. Ym mis Rhagfyr, aethom i Semicon Japan lle'r oedd gennym stondin yn y sioe a chynnal derbyniad yn Llysgenhadaeth y DU oedd yn canolbwyntio ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).



Electroneg Pŵer, lle'r oedd dros 100 o westeion yn bresennol.

- Taiwan - Ym mis Medi aethom i Semicon Taiwan, gan gefnogi cenhadaeth fasnach y DU o 18 cwmni a CSConnected, i hyrwyddo cynnig Cymru.
- Malaysia - ymwelodd llywodraeth Sarawak (un o ranbarthau Malaysia) â Chymru dair gwaith, ynghyd ag aelodau'r clwstwr lled-ddargludyddion, i drafod cyfleoedd cydweithio a arweiniodd at lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda CSA Catapult.
- De Korea – Ym mis Chwefror, aethom i Semicon Korea i arddangos cynnig Cymru.

## Ewrop

- Sbaen - Mae Cymru wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chatalonia sy'n canolbwyntio ar led-ddargludyddion cyfansawdd. Mae Catalonia yn awyddus i ddatblygu ei chlwstwr ei hun. Aeth cynrychiolwyr o Wlad y Basg i Wythnos Technoleg Cymru. Roedd ganddynt raglen o gyfarfodydd gyda chlwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd Cymru.
- Gwlad Belg - Llofnododd Cymru Gynghrair Rhanbarthau Silicon Ewrop (ESRA) ym Mrwsel ym mis Medi, lle'r oedd Derek Vaughan yn bresennol i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru. Cymru oedd yr unig ranbarth yn y DU i gael gwahoddiad i lofnodi'r bartneriaeth gyda 26 o ranbarthau eraill ledled Ewrop. Mae hyn wedi arwain at gyfarfod cyntaf Gweithgor Sherpa a gynhaliwyd ym Munich i archwilio cyfleoedd cydweithio drwy Horizon ac IPCE.
- Norwy – gan weithio gyda CSConnected, cymerodd swyddogion ran yn Wythnos Dechnoleg Oslo ym mis Medi, gan gyflwyno cynnig Cymru a chyfleoedd i gwmnïau gydweithio yn ogystal â mynd i weithdai ar ddeallusrwydd artiffisial ac ynni.
- Yr Almaen - Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi'u llofnodi gyda Baden-Württemberg a Saxony gyda lled-ddargludyddion wedi'u cynnwys fel meysydd posibl ar gyfer cydweithio. Yn ogystal, llofnodwyd Datganiad o Fwriad gyda llywodraeth Bafaria ym mis Tachwedd. Roedd Gweinidog yr Economi yn bresennol yn y broses lofnodi, a aeth i Semicon Europa wedyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Enwch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ile cyfarfu â chwmnïau gan gynnwys KLA. Arweiniodd Semicon Europa hefyd at gyfarfod gyda buddsoddwr sy'n awyddus i archwilio cyfleoedd yng Nghymru gan ei fod yn bwriadu agor canolfan arall yn y DU i gyd-fynd ag un o gyfleusterau presennol y DU.

## Cyflwyno'r Byd i Gymru

Mae ein proffil rhyngwladol cynyddol yn cael ei adlewyrchu yn nifer yr ymweliadau diplomyddol a rhyngwladol â Chymru – dros 100 y llynedd. Rydyn ni'n defnyddio'r cyfleoedd hyn i ddangos ein cryfderau a rhannu ein nod i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yn ogystal â nifer cynyddol o ymweliadau, rydym wedi gallu denu a chefnogi digwyddiadau dylanwadol sy'n cynnig cyfleoedd pwysig i ymgysylltu, gan ddangos ein hymrwymiad i fod yn genedl sy'n edrych tuag allan. Mae'r rhain yn gyfleoedd i Gymru rannu ein dulliau dysgu a dysgu gan eraill.

## Cynnal cysylltiadau ag Ewrop

Mae croesawu ymwelwyr rhyngwladol a diplomyddol o Ewrop wedi bod yn rhan allweddol o'n gweithgarwch dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae llawer ohonynt wedi gwneud datganiadau pwysig am bw ydyn ni, ein gwerthoedd a'n credoau cyffredin ac ymrwymiad i barhau i gydweithio.

Ym mis Mai 2023, fe wnaethom hwyluso Cynulliad Cyffredinol Comisiwn Bwa'r Iwerydd CPMR a gafodd ei gynnal yng Nghaerdydd - gan ddod â gweinidogion ac uwch swyddogion o ystod o ranbarthau'r UE ynghyd, yn ogystal â Québec, i drafod cydweithredu rhyngranbarthol cryfach yn ardal yr Iwerydd. Dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad Cyffredinol gael ei gynnal yn y DU ar ôl Brexit ac roedd yn gyfle pwysig i ddangos y gallwn barhau i gydweithredu ar fuddiannau a rennir ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd Cymru'n gallu chwarae rhan ganolog yn y Cynulliad lle'r oedd Gweinidogion a Chynrychiolydd Llywodraeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cymru ar Ewrop yn bresennol.

## Cymru – cenedl sy'n arloesi ac yn gwranddo

Rydym wedi cefnogi nifer o ymweliadau â Chymru sydd wedi trafod amrywiaeth o ddulliau arloesol yma, gan gynnwys ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n torri tir newydd a gweithgareddau eraill fel ein Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Pobl Wrth-hiliol a Phobl LGBTQ+.

Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gefnogi'r uwchgynhadledd 'Arweinyddiaeth ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol' ym Mhrifysgol Abertawe gyda'r Ysgrifennydd Hillary Rodham Clinton, a oedd yng nghwmni cyn-Lywydd yr Unol Daleithiau, Bill Clinton. Cymerodd y Prif Weinidog ran hefyd yn yr uwchgynhadledd gan siarad fel rhan o'r panel. Roedd y digwyddiad yn gyfle i siarad â chynulleidfa, a oedd yn cynnwys pobl ifanc a mynychwyr rhyngwladol ar-lein, am nifer o faterion sy'n dangos ein hymrwymiad i gyfrifoldeb byd-eang fel heddwch, cadernid cymunedol, newid yn yr hinsawdd a thechnolegau sy'n newid.

## Defnyddio ein partneriaethau rhyngwladol i arddangos ein cryfderau

Fe wnaethom lofnodi nifer o gytundebau rhyngwladol newydd eleni, gan gynnwys Fflandrys, Baden-Württemberg, Silesia a Birmingham, AL, yn ogystal â bwrw ymlaen â'n cytundebau presennol. Rydym wedi manteisio ar y cyfle i groesawu dirprwyaethau o'n rhanbarthau partner i Gymru, gan rannu ein syniadau a'n syniadau arloesol.

Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom groesawu dirprwyaeth o'n rhanbarthau blaenoriaeth i Wythnos Technoleg Cymru yng Nghasnewydd. Mae'r digwyddiad yn creu cyfleoedd i gysylltu pobl a busnesau ym maes Technoleg.

Drwy ganolbwyntio ar ddeallusrwydd digidol, seiber ac artiffisial, fe wnaethom

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

wahodd cynrychiolwyr o Silesia, Catalonia, Gwlad y Basg, Fflandrys, Baden-Württemberg a Québec i ddod i'r digwyddiad a derbyniad rhyngwladol a gynhaliwyd gan y Gweinidog Iechyd.

Gwnaethom hefyd ddatblygu rhaglen bwrpasol y tu hwnt i'r digwyddiad a oedd yn cynnwys ymweliadau safle â diwydiannau allweddol yn Ne Cymru.

### Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cysylltiadau-rhyngwladol-2023-i-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).